**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau a Chyllid

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 1 Tachwedd 2017 am 10.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P R Hood-Williams | L James | M H Jones |
| P Jones | J W Jones | I E Mann |
| D W W Thomas | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Keith Coxon | Yr Adran Rheoli Gwastraff |
| Bethan Hopkins | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): P Downing a/ac B J Rowlands
Aelodau Cyfetholedig(wyr):
Mynychwyr eraill:

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim

2 **Cofnodion**

Cymeradwywyd

3 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Dim

4 **Ailgylchu a Thirlenwi - Monitro Perfformiad Blynyddol**

- Daeth Keith Coxon, Rheolwr Prosiectau a Pherfformiad, i roi'r diweddaraf i'r panel ar Adroddiad Blynyddol Monitro Perfformiad Ailgylchu a Thirlenwi

- Mae'r gwasanaeth wedi bodloni ei dargedau gwastraff statudol dros y 12 mis diwethaf ac wedi gwella arnynt a gweld cynnydd o 4.17% ar dargedau'r llynedd

- Mae Data Llywodraeth Leol ynglŷn â pherfformiad gwastraff dinesig braidd yn gamarweiniol. Gan nad yw Cyngor Abertawe'n llosgi gwastraff (mae'n rhy ddrud ac mae ardaloedd tirlenwi ganddo), ni all elwa o ddefnyddio llwch tuag at ei darged ailgylchu. Er gwaethaf hynny mae Cyngor Abertawe yn parhau i fodloni ei dargedau ailgylchu

- Mae dangosydd perfformiad tirlenwi yn y Bwletin Perfformiad Awdurdod Lleol yn gosod Abertawe yn 22/22 allan o bob awdurdod lleol Cymru achos nad yw Abertawe'n llosgi ei wastraff, felly mae 100% ohono'n mynd i safleoedd dirlenwi

- Ar hyn o bryd mae problemau sy'n gysylltiedig ag ailgylchu pren. Gall paent, cyffieithiwr etc ar bren effeithio ar sut y caiff ei ailgylchu

- Nid oes unrhyw weithfeydd llosgi yn ne-orllewin Cymru. Mae un yng Nghaerdydd ond ni all Abertawe ei defnyddio. Mae Sir Benfro a Sir Ceredigion yn anfon eu gwastraff i Sweden i'w losgi

- Mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i gael gweithfa llosgi yn ne-orllewin Cymru ac mae Keith Coxon yn asesu'r galw am losgi ac yn cynnal ymchwil i hwn

- Mae trafodaeth ar waith ynglŷn â dynodi sachau penodol (porffor a melyn) ar gyfer cewynnau a gwastraff ymataliaeth fel nad yw'r gwastraff hwn yn cael ei gynnwys yn y sachau du

- Gwelwyd cynnydd bach yn tipio anghyfreithlon ers symud y sgipiau ar gyfer gwastraff gweddilliol ond yn llawer llai na swm y sbwriel oedd yn cael ei waredu yn y sgipiau'n wreiddiol

- Mae'r cyngor yn ceisio annog pobl nad ydynt yn ailgylchu llawer neu o gwbl i wneud hynny ond nid yw hyn yn hawdd

- Gall annog ailgylchu mewn ardaloedd lle mae myfyrwyr fod yn ddyrys ond mae'r awdurdod yn gweithio gyda'r brifysgol a landlordiaid i wella'r sefyllfa. Serch hynny mae natur dros dro myfyrwyr yn gwneud hyn yn anodd

- Y broblem gyda phlastigion caled a meddal yw bod plastigion meddal yn atal y peiriannau rhag didoli deunydd effeithiol. Roedd angen i'r plastigion meddal gael eu didoli'n fwy manwl (e.e. fesul polymer) ac roedd y gost o gael staff i wneud hyn â llaw yn rhy ddrud i'w roi ar waith. Mae opsiynau eraill yn cael eu hystyried ar hyn o bryd

- Mae'r adran yn gweithio gyda'r Adran Cynllunio i geisio sicrhau bod cyfleusterau ailgylchu yn cael eu gosod yn nhai amlfeddiannaeth yn y cam cynllunio

- Dylid yn edrych ar wraidd y problemau hyn (gorddefnydd o blastigion meddal a chynhyrchwyr/landlordiaid sy'n methu cymryd cyfrifoldeb)

5 **Datganiad Cyllideb Canol Blwyddyn 2017/18**

- Daeth Sarah Willis ac Amanda Thomas ar ran Ben Smith
- Ni fanylwyd ar y datganiad gan ei fod wedi'i gyflwyno i'r cyngor yr wythnos gynt
- Archwiliwyd pam roedd angen datganiad cyllideb canol flwyddyn ynghyd ag adroddiad yn chwarter 2
- Mae adroddiad chwarter 2 yn edrych i'r gorffennol ond mae'r datganiad cyllideb canol blwyddyn hefyd yn edrych i'r dyfodol ac mae'n fanylach

6 **Y Diweddaraf am y Gronfa wrth Gefn**

- Cyflwynwyd yr adroddiad i'r cyngor yr wythnos gynt felly roedd y panel wedi cael amser i ddarllen y materion
- Codwyd rhai cwestiynau ynglŷn â'r adroddiad a gaiff eu cynnwys yn y llythyr

7 **Cynllun Gwaith 2017/2018**

**Llythyr at Aelod y Cabinet**

**Ymateb Aelod y Cabinet**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.25 am

**Cadeirydd**